**Canllaw Myfyrwyr i Arholiadau yng Ngholeg Gŵyr Abertawe 24/25**

Mae'r holl arholiadau ac asesiadau yn rhedeg yn ôl rheoliadau JCQ neu'r rheoliadau cyfatebol a nodwyd gan y Corff Dyfarnu.

**Gweithdrefnau Cofrestru**

Yn gyffredinol, bydd ein darlithydd yn gwneud y cofrestriad ar eich rhan. Yn achos arholiadau ar alw, bydd eich darlithydd yn cadarnhau dyddiad, amser a lleoliad eich arholiad.

**Eich Amserlen Arholiadau**

Yn achos arholiadau ar-lein, bydd eich darlithydd yn cadarnhau'r dyddiad, yr amser a'r lleoliad ar gyfer eich arholiad.

Yn achos cyfres arholiadau TAG yr haf, sef TGAU, Safon Uwch/UG, byddwch yn derbyn datganiad o fynediad y dylech ei wirio. Bydd eich darlithydd yn cadarnhau'r lleoliadau ar gyfer yr arholiadau hyn, ond byddan nhw hefyd i'w gweld ar hysbysfyrddau'r arholiadau.

Bydd eich amserlen arholiadau hefyd i'w gweld ar eich e-CDU, a bydd prif ystafell yr arholiad i'w gweld hyd at 7 diwrnod cyn yr arholiad. Os oes gennych drefniadau mynediad arbennig byddwn yn rhoi gwybod i chi am leoliad eich arholiad y diwrnod cyn yr arholiad.

**Diwrnodau Wrth Gefn ar gyfer Arholiadau** – Mae'r cyrff dyfarnu yn neilltuo dyddiadau y gallant eu defnyddio pe bai angen aildrefnu papur arholiad. Dylech gadw'r dyddiadau hyn mewn cof wrth drefnu gwyliau. Yn Haf 2025 mae'r cyrff dyfarnu wedi nodi'r diwrnodau canlynol fel 'diwrnodau wrth gefn' ar gyfer arholiadau haf 2025:Prynhawn Dydd Mercher 11 Mehefin 2025. Diwrnod llawn Dydd Mercher 25 Mehefin 2025.

**Manylion cyswllt**

Cysylltwch â'r tîm arholiadau os oes gennych ymholiadau ynghylch eich cofrestriadau, trefniadau mynediad, gwrthdaro yn yr amserlen, salwch ar y diwrnod, canlyniadau ac apeliadau.

Gorseinon – Swyddfa Arholiadau 01792 890773

Tycoch – Swyddfa Arholiadau 01792 284006

**Ymddygiad mewn Arholiadau**

Mae Siarter y Dysgwr yn dal yn berthnasol. Yn ogystal, bydd rhaid cynnal safonau ymddygiad penodol yn yr ystafelloedd arholiadau, gall methu â gwneud hynny arwain at ddiarddel. Rhaid i chi wrando ar y goruchwyliwr, a rhaid i chi beidio ag aflonyddu ar fyfyrwyr eraill unwaith y bydd y goruchwyliwr wedi dechrau'r arholiad. Os oes angen sylw'r goruchwylwyr arnoch, rhaid i chi godi'ch llaw. Ni ddylech adael yr ystafell heb gwmni os ydych am ddychwelyd i gwblhau eich arholiad.

Adolygwyd Chwefror 2025

Disgwylir i chi gyrraedd o leiaf 15 munud cyn dechrau'ch arholiad, ac ymddwyn yn unol â'r rheoliadau a osodwyd gan y Byrddau Arholi, **darllenwch y rhain yn y dogfennau "Gwybodaeth i Ymgeiswyr" dogfennau a ddarganfuwyd ar y porth myfyrwyr** **https://studentportal.gcs.ac.uk/exams-and-assessments/**

Dim ond eitemau a ganiateir y byddwch chi'n gallu dod â nhw gyda chi i'r ystafell arholiadau.

Dylech chi ddod â'r canlynol gyda chi:

- Rhif Adnabod Myfyriwr

- Nwyddau ysgrifennu ac offer sydd eu hangen ar gyfer yr arholiad naill ai yn rhydd neu mewn cas pensiliau heb ei farcio. Bydd angen pen inc du arnoch.

- Rhif yr ymgeisydd

Os hoffech chi ddod â photelaid fach o ddŵr gyda chi, dylai fod heb label, a'i rhoi ar y llawr wrth ochr eich desg.

**MAE'N BOSIBL Y BYDD EICH EIDDO YN CAEL EU GADAEL HEB ORUCHWYLIAETH YN YSTOD EICH ARHOLIADAU AC FELLY DYLECH ADAEL PETHAU GWERTHFAWR GARTREF.**

**Ni ddylech ddod â'r canlynol gyda chi** (dylech chi adael y rhain yn y storfa fagiau cyn dod i mewn i'r ystafell arholiadau)

- Nodiadau (i'r ystafell arholiadau)

- Ffôn symudol, i-pod, mp3/4 neu debyg

- Oriawr

**Trefniadau Mynediad**

Rhaid cymeradwyo'r rhain ymlaen llaw. Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi gwybod i ni os ydych yn gymwys ar gyfer y rhain, ac nid ydynt wedi'u rhestru ar eich datganiad cofrestru neu'ch eCDU. Os felly, mae angen i chi siarad â'ch darlithydd a'r Tîm Cymorth Dysgu.

**Cyrraedd yn Hwyr / Absenoldeb**

**Arholiadau ar alw** - Gwiriwch ddyddiadau ac amserau pob un o'ch Arholiadau, os byddwch yn gwneud camgymeriad neu'n colli'ch cludiant, bydd dyddiad arholiad arall yn cael ei drefnu ar eich cyfer yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Os byddwch yn methu eich arholiad yn gyfan gwbl bydd angen i chi roi gwybod i'r Swyddfa Arholiadau er mwyn sicrhau nad yw'r arholiad yn cael ei ohirio tra byddwn yn ceisio dod o hyd i chi.

Os ydych yn sâl iawn neu yn yr ysbyty yna bydd angen i chi ddod â thystiolaeth o hyn (llythyr meddyg teulu) i'r Swyddfa Arholiadau. Gall fod yn bosibl gwneud cais i'r corff dyfarnu am Ystyriaeth Arbennig. Bydd angen i chi lenwi a llofnodi'r ffurflenni cais angenrheidiol sydd ar gael gan y Swyddog Arholiadau.

**Arholiadau dyddiedig/TAG** - Gwiriwch ddyddiadau ac amserau pob un o'ch Arholiadau. Os byddwch yn gwneud camgymeriad neu os ydych wedi dihuno'n hwyr ac wedi colli'ch cludiant i'r Coleg sy'n eich gwneud yn hwyr, dim ond os byddwch yn cyrraedd erbyn 10am (arholiad y bore) neu 2.30 pm (arholiad prynhawn) y caniateir i chi sefyll yr arholiad. Os byddwch yn cyrraedd yn hwyr rhaid i chi fynd yn syth i'r Swyddfa Arholiadau i adrodd i mewn. Byddwn yn ymdrechu i roi amser llawn yr arholiad i chi ond bydd hyn yn dibynnu ar bob arholiad. Os byddwch yn cyrraedd ar ôl yr amserau hyn bydd angen hysbysu'r corff dyfarnu. Bydd y Swyddog Arholiadau yn penderfynu a fyddwch yn gallu sefyll yr arholiad.

Os byddwch yn methu eich arholiad yn gyfan gwbl bydd angen i chi roi gwybod i'r Swyddfa Arholiadau er mwyn sicrhau nad yw'r arholiad yn cael ei ohirio tra byddwn yn ceisio dod o hyd i chi.

Os ydych yn sâl iawn neu yn yr ysbyty bydd angen i chi ddod â thystiolaeth o hyn (llythyr meddyg teulu) i'r Swyddfa Arholiadau. Gall fod yn bosibl gwneud cais i'r corff dyfarnu am Ystyriaeth Arbennig. Bydd angen i chi lenwi a llofnodi'r ffurflenni cais angenrheidiol sydd ar gael gan y Swyddog Arholiadau.

**Gwaith Cwrs ac Asesiad Di-arholiad**

Os oes gan unrhyw ran o'ch cymhwyster Safon Uwch neu TGAU elfen a asesir yn fewnol, heb arholiad – hynny yw, rydych chi wedi cwblhau gwaith cwrs neu asesiad dan reolaeth sy'n cyfrannu at eich gradd derfynol bydd eich marciau yn cael eu rhannu â chi cyn cael eu cyflwyno i'r Corff Dyfarnu. Bydd eich darlithwyr yn rhoi'r dyddiad hwn i chi, a phan gewch eich marciau gallwch chi ofyn am adolygiad o'r marciau.

**Gwaith Cwrs – darllen Coursework Student Guidance (Cymraeg)**

**Asesiad dan Reolaeth – darllen Controlled Assessment Student Guidance (Cymraeg)**

Cofiwch, mae'r marc a ddyfernir gan eich darlithydd yn un dros dro a gallai fynd i fyny neu i lawr pan fydd y Corff Dyfarnu yn cynnal y broses gymedroli.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, siaradwch â'ch darlithydd.

**Canlyniadau Arholiadau**

Mae rhai canlyniadau cymwysterau galwedigaethol yn cael eu cyhoeddi yn fuan wedi i ni wneud yr hawliad. Mae dyddiadau penodedig ar gyfer canlyniadau cymwysterau eraill fel isod:

**Safon Uwch, Galwedigaethol Lefel 3 a Bagloriaeth Cymru Dydd Iau 14 Awst 2025**

**TGAU a Galwedigaethol Lefel 1 a 2 Dydd Iau 21 Awst 2025**

Os nad oes dyddiad penodedig, bydd eich canlyniadau i'w gweld ar e-CDU, a byddwch yn derbyn eich tystysgrif cymhwyster yn y post.

Os oes dyddiadau penodedig ar gyfer y canlyniadau, byddwch yn derbyn Datganiad Canlyniadau wedi'i brintio, ac os na fyddwch yn ei gasglu byddwn ni'n ei bostio atoch yn nes ymlaen ar y diwrnod canlyniadau.

Os na allwch chi gasglu'ch canlyniadau, bydd angen i chi roi awdurdod ysgrifenedig (nid neges destun nac e-bost) i ganiatáu i rywun arall eu casglu ar eich rhan. Ni allwn roi canlyniadau dros y ffôn neu ar e-bost, o dan unrhyw amgylchiadau.

Bydd canlyniadau ar gael hefyd drwy'r e-CDU ar y dyddiadau uchod.

**Bydd manylion sut i gasglu'ch canlyniadau yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan yn nes at ddyddiad rhyddhau'r canlyniadau**.

Rydyn ni'n anfon pob tystysgrif newydd gyda'r post, rhowch wybod i ni os oes angen i chi newid eich cyfeiriad trwy gysylltu â Enrolment@gcs.ac.uk

**Apeliadau a Gwasanaethau Ôl-ganlyniadau**

Os hoffech chi apelio yn erbyn eich gradd, mae'r gwasanaethau ôl-ganlyniadau yn weithredol eleni. Dylech chi ddarllen y canllawiau y byddwn ni'n eu cyhoeddi gyda'ch canlyniadau, gan roi sylw arbennig i'r dyddiadau cau ar gyfer y gwasanaeth sydd ei angen arnoch. Byddwch chi'n gwneud cais trwy Swyddfa Arholiadau'r Coleg, a bydd gofyn i chi lenwi ffurflen a llofnodi eich bod yn deall y broses, ac y gall graddau fynd i lawr yn ogystal ag i fyny.

Er enghraifft, bydd rhaid i ymgeiswyr Safon Uwch sydd angen gwasanaeth ôl-ganlyniadau Gwasanaeth 2 â blaenoriaeth (deiliaid lleoedd Prifysgol) gael eu gwneud erbyn 21 Awst 2025, trwy'r Swyddfa Arholiadau.

**Cyngor ac Awgrymiadau**

Mae'r Byrddau Arholi yn cynnig cyngor ac awgrymiadau ar eu gwefannau. Efallai y byddwch chi am edrych ar yr adnoddau sydd ar gael i'ch helpu i baratoi ar gyfer arholiad y cymhwyster rydych chi'n ei ddilyn. Dyma rai ohonyn nhw:

CBAC https://www.cbac.co.uk/home/cefnogaeth-i-fyfyrwyr/

Cymwysterau Cymru https://cymwysterau.cymru/gwybodaeth-a-chefnogaeth/dysgwyrrhieni-a-gofalwyr/gwybodaeth-i-ddysgwyr/

Pearson BTEC https://qualifications.pearson.com/en/support/support-foryou/students.html

OCR https://ocr.org.uk/students/exam-support/

AQA https://www.aqa.org.uk/student-and-parent-support

Mae Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru, e-sgol, Cymwysterau Cymru a CBAC wedi sicrhau bod yr adnoddau hyn ar gael drwy hwb cynnwys Dal Ati i Ddysgu. Edrychwch ar yr adnoddau hyn https://hwb.gov.wales/adnoddau/lefel-nesa/